



**Age Cymru**

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr  
a Datganiadau Ariannol 2010-11**

## Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
Neges y Cadeirydd	3
Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011	4
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Age Cymru Cyfyngedig	23
Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol Age Cymru ac Age Concern Cymru (gan gynnwys y Cyfrif Elw a Cholled) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011	25
Datganiad o Weithgareddau Ariannol Age Cymru (yn cynnwys y Cyfrif Elw a Cholled) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011	26
Datganiad o Gyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig Age Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011	27
Datganiad Gyfunol o Gyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig Age Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011	28
Datganiad Cyfunol Age Cymru ar 31 Mawrth 2011	29
Datganiad Age Cymru ar 31 Mawrth 2011	30
Nodiadau gyda'r Datganiadau Ariannol Cyfunol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011	31 - 53

## Neges y Cadeirydd

Pleser ac anrhydedd pur yw cyflwyno ail adroddiad blynyddol Ymddiriedolwyr Age Cymru. Mae Age Cymru, a'i elusennau rhagflaenol Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru, wedi bod yn gweithio er lles pobl hŷn ledled Cymru ers 60 mlynedd. Mae dwy flynedd ers yr uno, a blwyddyn ers lansio ein brand cyffrous newydd. Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi gwibio heibio; mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i geisio atgyfnerthu ein rôl a rhoi llais cryf a chydlynol fel y brif elusen sy'n gweithio gyda, ac er lles, pobl hŷn yng Nghymru.

Creu 'byd lle gall pobl hŷn ffynnu' yw ein gweledigaeth. Drwy weithgareddau fel atal pobl hŷn rhag cael eu cam-drin a rhoi cyfleoedd i bobl hŷn ledled Cymru i wneud ymarfer corff i'w cynorthwyo i heneiddio'n iach - mae tîm Age Cymru wedi gweithio'n galed, ond rydym yn sylweddoli bod llawer rhagor i'w wneud o hyd.

Gwaith caled ac ymroddiad ein staff a'n gwirfoddolwyr sy'n gyfrifol am y ffaith fod Age Cymru wedi parhau i gynig amrywiaeth eang o wasanaethau a chymorth i bobl hŷn, a hynny yn yr oes sydd ohoni pan fo'r esgid fach yn gwasgu. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am waith parhaus Age Cymru a'r hyn sydd ar y gweill.

Pobl hŷn yw hanfod ein sefydliad. Bydd yn bleser gennym lansio Fforwm Ymgynghori Pobl Hŷn ar 4 Mai 2011 i wneud yn siwr bod ein hymrwymiad i ymgysylltu yn rhan o'n trefniadau llywodraethu. Rydym yn falch o weld pobl hŷn o bob cwr o Gymru'n cael eu cynrychioli ar y Fforwm yn ogystal â chynrychiolwyr o'r rhwydweithiau amrywiaeth a sefydliadau cenedlaethol pwysig yng Nghymru sy'n cynrychioli pobl hŷn.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda rhwydwaith o elusennau Age Concern annibynnol. Bydd y rhain yn cael eu hailenwi i fod yn bartneriaid Age Cymru ond byddant yn cadw eu hannibyniaeth leol. Gyda'n gilydd, byddwn yn cynnig cynnyrch a gwasanaethau o safon ledled Cymru; sicrhau bod gwybodaeth a chynghor cywir ar gael yn lleol ac wyneb yn wyneb i bobl hŷn, teuluoedd a gofalwyr; cynnal ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol amlwg am y materion sydd fwyaf o bwys i bobl hŷn, yn ogystal â chydweithio i gyflawni hyd yn oed yn rhagor ar gyfer pobl hŷn. Bydd y partneriaethau lleol a chadarn hyn yn parhau i ffynnu fel sefydliadau annibynnol yn eu cymunedau ac yn ymateb i anghenion y bobl leol.

Rydym yn sylweddoli y bydd heriau. Rydym yn gwybod bod arian yn brin yn lleol ac yn genedlaethol i gynnal gwasanaethau a datblygu rhai newydd. Mae Age Cymru yn buddsoddi mewn strategaeth cynhyrchu incwm amrywiol i ariannu ein hamcanion elusennol. Er gwaethaf yr heriau, rydym yn parhau i gredu'n gryf yn ein hymdrechion, sef gweithio gyda, ac er lles, pobl hŷn yng Nghymru.

I gloi, rhaid i mi ddiolch i bawb am eu hymdrechion sydd wedi cyfrannu at lwyddiannau parhaus Age Cymru ar ddiwedd blwyddyn gyffrous a heriol arall.

Dr Bernadette Fuge MBBCH, LLM, MPH  
Cadeirydd

## Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

### Amcanion, Strwythur, Llywodraethu a Rheoli

#### Amcanion Cyfreithiol

Cwmni elusennol yw Age Cymru. Mae'n gyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Fe'i sefydlwyd yn unol â Memorandwm Sefydlu ar 4 Mawrth 2009, a dechreuodd weithredu ar 1 Ebrill 2009, ar ôl uno Age Concern Cymru a Help the Aged (gweithrediadau Cymru).

Enw'r Elusen:	Age Cymru
Rhif Cofrestru'r Elusen:	1128436
Rhif Cofrestru'r Cwmni:	6837284
Swyddfa Gofrestredig:	Tŷ John Pathy 13/14 Cwrt Neptune Ffordd Blaen-y-gad Caerdydd CF24 5PJ

Mae'r amcanion yn y Memorandwm Sefydlu yn nodi diben yr elusen sef hyrwyddo'r dibenion canlynol er lles y cyhoedd a/neu bobl hŷn:

- Atal neu leddfu tlodi ymysg pobl hŷn
- Ymestyn addysg
- Atal neu leddfu salwch, afiechydon neu ddiodefaint ymysg pobl hŷn (boed yn emosïynol, yn feddyliol ac/neu'n gorfforol)
- Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Hyrwyddo hawliau dynol pobl hŷn yn unol â'r Datganiad Cyffredinol am Hawliau Dynol
- Cynorthwyo pobl hŷn sydd mewn angen oherwydd salwch, anabledd, caledi ariannol neu anfantais
- Dibenion elusennol eraill er lles pobl hŷn y gall yr Ymddiriedolwyr benderfynu arnynt o bryd i'w gilydd.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn hyrwyddo lles pobl hŷn.

## Ymddiriedolwyr a Strwythur y Sefydliad

Yn unol â Memorandwm y Sefydliad, gellir penodi 12 ymddiriedolwr gan gynnwys y Cadeirydd. Penodwyd wyth ymddiriedolwr yn dilyn argymhellion gan bwyllgor enwebu; penodwyd 1 ymddiriedolwr ar ôl cael ei enwebu gan Age UK a phenodwyd 1 ymddiriedolwr ar ôl cael ei enwebu gan bartneriaeth o sefydliadau Age Concern yng Nghymru.

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n rheoli'r elusen, ei heiddo a'i harian, a nhw sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol o weithredu Age Cymru. Bu pob ymddiriedolwr yn cyflawni eu rôl drwy gydol y flwyddyn, oni nodir fel arall:

Dr Bernadette Fuge	<b>Cadeirydd</b>
Mr Christopher Ward (A)	<b>Dirprwy Gadeirydd</b>
Mr Nigel Towns (A)	<b>Trysorydd</b>
Yr Athro Fonesig June Clark	
Ms Pam Dodd	
Ms Valmai Fox (Ymddeolodd ar 30 Mawrth 2011)	
Ms Alison Huggins	
Mr Meirion Hughes	
Mr Michael Ponton (A)	
Mr David Vokes (A)	
Ms Hilary Wiseman	

(A) – aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Pherfformiad

Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Pherfformiad yw prif bwyllgor y Bwrdd a chyfarfu 3 gwaith yn ystod y flwyddyn. Diben y pwyllgor yw adolygu ac adrodd yn ôl i'r bwrdd am reoli perfformiad, dulliau rheoli mewnol, rheoli risg a rheoli arian.

Cyfarfu'r Bwrdd 4 gwaith yn ystod y flwyddyn ac ym mhob cyfarfod derbyniodd gopi o'r gofrestr risg wedi'i diweddarau yn ogystal ag adroddiadau gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Pherfformiad.

## Prif Swyddogion

Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr yw'r Uwch-dîm Rheoli a nhw sy'n gyfrifol am reoli a gweithredu'r elusen bob dydd:

Prif Weithredwr	Mr Robert Taylor OBE
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol	Ms Jane Reeks
Cyfarwyddwr Dylanwadu a	Ms Victoria Lloyd
Datblygu Rhaglenni	

## **Noddwr Brenhinol**

EMB Tywysog Cymru KG KT GCB

## **Llywydd**

Y Fonesig Deirdre Hine DBE FFPH FRCP

## **Is-lywyddion**

Roy Noble OBE  
Barbara Wilding CBE  
Ann Beynon OBE

## **Cynghorwyr**

Bancwyr:

Banc National Westminster  
Cangen Plas y Parc  
PO Box 247  
Caerdydd  
CF1 3TA

Archwilwyr:

Broomfield and Alexander Ltd  
Tŷ Pendragon  
Caxton Place  
Pentwyn  
Caerdydd  
CF23 8XE

Cyfreithwyr:

Geldards LLP  
Tŷ Dumfries  
Plas Dumfries  
Caerdydd  
CF10 3ZF

## **Elusennau a Chwmnïau Cysylltiedig**

Mae Cyngor Cymru ar Heneiddio (Age Concern Cymru) yn elusen anghorfforedig a reolir gan gyfansoddiad. 1128436-1 yw ei rhif elusen gofrestrdedig. O dan ddeddf elusennau, ystyrir bod yr elusen hon yn rhan o Age Cymru o dan Gyfarwyddyd Uno (Adran 96(5) Deddf Elusennau 1993. Age Cymru yw unig Ymddiriedolwr Cyngor Cymru ar Heneiddio ac mae'r Gyfarwyddyd Uno yn galluogi'r elusen i gyflwyno cyfres gyfunol o gyfrifon ac adroddiad blynyddol i'r ddwy elusen.

Ym mis Chwefror 2011, sefydlwyd Mentrau Age Cymru Cyfyngedig fel is-gwmni y mae Age Cymru yn berchen arno'n llawn. Nid cynhyrchu incwm ar gyfer gweithgareddau

elusenol fydd unig waith y cwmni oherwydd bydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at wella bywydau pobl hŷn. Yn sgil y gweithgareddau hyn, darperir cynnyrch a gwasanaethau sydd wedi'u dylunio'n benodol i fod yn werthfawr i bobl hŷn.

Mae gan Age Cymru rôl wrth ddiffinio polisi cyhoeddus mewn materion sydd o ddiddordeb i bobl hŷn, a ddatganolwyd i Lywodraeth Cymru. Mae'r 4 elusen genedlaethol, Age Cymru, Age UK, Age Scotland ac Age NI, yn parhau i gydweithio'n agos â'i gilydd. Rydym hefyd yn falch iawn bod sawl Age Concern lleol yn rhan o gytundeb partneriaeth gydag Age Cymru ac Age UK. Golyga hyn y bydd pob un ohonom yn datblygu ac yn cyflwyno gwasanaethau er lles pobl hŷn o dan ein brand newydd a chyffrous.

## **Adrodd am les i'r cyhoedd**

Wrth bennu cynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer y meysydd gwaith, mae ymddiriedolwyr Age Cymru wedi ystyried arweiniad gan y Comisiwn Elusennau am roi les i'r cyhoedd.

Yn benodol, mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried sut mae gweithgareddau a gynllunnir yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a bennwyd. Mae'r ffordd y mae Age Cymru yn cyflawni ei phrif amcanion elusenol yn cael eu dangos yn y gweithgareddau a'r cyflawniadau yr adroddir amdanynt. Nodir y rhain yn ei Memorandwm ac Erthyglau Sefydlu a gellir eu crynhoi fel gwella bywydau pobl hŷn. Felly, mae'r lles a roddir i'r cyhoedd o ganlyniad i waith Age Cymru yn rhan annatod o'r gwasanaethau elusenol a gyflwynir a'r cymorth a roddir i bobl hŷn.

## **Strategaeth a Blaenoriaethau ar gyfer 2010-11**

Mae Age Cymru am greu byd lle mae pobl hŷn yn llwyddo. Cafodd sylfaenwyr Age Cymru eu hysbrydoli gan y weledigaeth hon i greu sefydliad newydd gan gydnabod bod llawer o waith i'w wneud i'w gwireddu.

Nod Age Cymru yw gwella bywyd i bobl hŷn, gwneud gwahaniaeth ymarferol go iawn i bobl heddiw, yn ogystal â gweithio i roi bywyd gwell i bobl hŷn yn y dyfodol.

### **Blaenoriaethau**

Yn ystod 2010/11, bu Age Cymru yn gweithio cyflwyno blwyddyn olaf y cynlluniau a ddrafftiodd ar gyfer Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru yn wreiddiol. Drwy wneud hynny, parhaodd yr elusen i wneud yn siwr bod pwyslais clir yn cael ei roi ar:

- Gyflawni ymrwymadau cyfredol
- Uno'r ddwy elusen
- Gwneud yn siwr bod Age Cymru yn gynaliadwy ac yn annibynnol yn yr hirdymor.

Gan ystyried y ffactorau hyn, dyma flaenoriaethau'r sefydliad ar gyfer 2010/11:

- Hyrwyddo cydraddoldeb, hawliau dynol a gwella gallu pobl hŷn i ddefnyddio eu hawliau a chyfrannu'n llawn at gymdeithas
- Gwneud yn siwr bod pobl hŷn yn byw'n iach am gyn hired â phosibl yn ogystal â hyrwyddo iechyd, lles ac annibyniaeth pobl hŷn
- Lleihau esgeulustod, anfantais, cyflawni mwy o gynhwysiad cymdeithasol a herio achosion tlodi
- Gweithio mewn partneriaeth i ddylanwadu'n eang a defnyddio adnoddau'n llawn
- Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd a chyflawni rhagoriaeth sefydliadol.

## Gweithgareddau a Chyflawniadau

### 1. Hyrwyddo cydraddoldeb, hawliau dynol a gwella gallu pobl hŷn i ddefnyddio eu hawliau a chyfrannu'n llawn at gymdeithas

**Cydraddoldeb oed** yw un o nodau sylfaenol Age Cymru. Rydym wedi parhau i dynnu sylw at enghreifftiau o oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed i gynorthwyo ein hymgyrch barhaus am gydraddoldeb oed drwy gydol y flwyddyn.

Cynhaliwyd cynhadledd gennym ar gyfer pobl hŷn o'r enw **Datblygu cydraddoldeb a materion amrywiaeth mewn henaint**. Ymwybyddiaeth o oed a chydraddoldeb oed yng nghyd-destun Deddf Cydraddoldeb 2010 oedd y pynciau dan sylw ac ystyriwyd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ehangach hefyd a chafwyd gweithdai a chyflwyniadau o safbwynt pobl hŷn sydd o leiafrif ethnig ac yn lesbiaid, yn hoyw neu'n drawsrywiol.

Cynhaliodd yr elusen stondin arddangos yng ngŵyl **Mardi Gras Caerdydd** yn 2010. Barnwyd bod ein presenoldeb yn llwyddiant ysgubol ar sail yr holl **wybodaeth a chynghor** a rannwyd. Roedd y wybodaeth yn cyfeirio'n benodol at brofiadau lesbiaid, hoywon a thrawsrywolion hŷn yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol. Manteisiodd y tîm ar y cyfle i recriwtio aelodau i **Rwydwaith y Bobl Hŷn** ac i geisio barn am yr angen am eiriolaeth.

Rhodddwyd cymorth drwy gydol y flwyddyn i **Rwydwaith y Lesbiaid, Hoywon a Thrawsrywolion Hŷn** i roi llais i safbwyntiau amrywiaeth o bobl hŷn.

Ail-lansiwyd **Rhwydwaith y Bobl Ethnig Leiafrifol Hŷn** ym mis Chwefror 2011. Yn y cyfarfod cyntaf, etholodd y rhwydwaith Gadeirydd ac enwebu aelodau ar gyfer Fforwm Ymgynghorol Age Cymru.

## Mynd yn Hŷn yng Nghymru

Parhaodd Age Cymru i hybu Mynd yn Hŷn yng Nghymru, ein **hadnodd hyfforddi ymwybyddiaeth o oed**. Datblygwyd Mynd yn Hŷn yng Nghymru i gynorthwyo unigolion a sefydliadau i herio a dileu'r oedraniaeth sy'n medru bod tu cefn i'r driniaeth annerbyniol a roddir i bobl hŷn ac atal neu gyfyngu eu mynediad at nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau.

Fe wnaethom weithio mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno'r adnodd ar waith mewn awdurdodau lleol ar draws Cymru er mwyn iddynt wneud defnydd llawn o'r wybodaeth a rhoi'r egwyddorion ar waith draws eu sefydliadau.

Yn ystod 2010, cynigiwyd sesiynau Mynd yn Hŷn yng Nghymru i'n partneriaid mewn canghennau **Age Concern Lleol** hefyd er mwyn iddynt allu hyfforddi staff a'u hysbysu am gyfleoedd rhaeadru.

Defnyddiwyd Mynd yn Hŷn yng Nghymru i ddatblygu **gweithdy hyfforddiant** ar gyfer **staff canolfannau galwadau** yn ystod 2010. Cyflwynwyd y gweithdai i gwmni cyfleustodau blaenllaw yn ystod yr hydref.

Mae'r teclyn **Sut I Diogeli Oed** wedi'i ddiweddarau i gyd-fynd â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 ac fe'i cyhoeddir ym mis Gorffennaf 2011.

## Cam-drin Pobl Hŷn

Mae diogelu pobl hŷn rhag cael eu cam-drin wedi parhau i fod yn flaenoriaeth i'r elusen. Mae'r prosiect wedi cyflwyno nifer sylweddol o ganlyniadau yn ystod 2010 /11.

Ym mis **Gorffennaf 2010**, cynhaliwyd **cynhadledd** i lansio ein **Manifffesto Cam-drin Pobl Hŷn**. Denodd y gynhadledd siaradwyr blaenllaw ac amlwg a chafodd gryn sylw gan y cyfryngau a'r papurau newydd. Fe atgyfnerthodd statws yr elusen fel arbenigwr ym maes cam-drin pobl hŷn a rhoddodd y cyfle i ni gyflwyno pryderon a materion yn uniongyrchol i'n cynulleidfa oedd yn cynnwys gweision sifil allweddol, pobl sy'n gweithio gyda phobl hŷn, yn ogystal â phobl hŷn eu hunain.

Ariannwyd **Manifffesto Cam-drin Pobl Hŷn** gan Comic Relief fel dogfen etifeddiaeth a dyma oedd penllanw gwaith y prosiect dros y pedair blynedd flaenorol. Dosrannwyd y manifffesto yn eang ymysg rhan-ddeiliaid a phobl hŷn. Mae rhai o Aelodau'r Cynulliad wedi'i defnyddio fel tystiolaeth mewn sawl sesiwn lawn yn y Cynulliad. Ar ben hynny, cyflwynwyd **Datganiad o Farn** i ategu'r manifffesto.

Llwyddodd y sylw eang a gyflawnwyd yn sgil y gynhadledd i gyfrannu'n sylweddol at godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bobl hŷn yn cael eu cam-drin. Mae ymwybyddiaeth yn elfen hanfodol o'n gwaith er mwyn atal pobl hŷn rhag cael eu cam-drin ac roedd hwn yn un o sawl cyfle a ddefnyddiwyd gennym yn ystod y flwyddyn i dynnu sylw at y mater.

I gyd-fynd â'r gwaith o godi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd, cyflwynodd y prosiect **fwletin rhannu gwybodaeth rheolaidd** i'n rhwydwaith o weithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid i rannu arferion da ac arloesedd ar draws y sector.

Comisiwynwyd Age Cymru gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i gynnal rhagor o **ymchwil am ddarparu eiriolaeth** yng Nghymru. Lansiodd **Hanfodion Eirioli 3** ar 16 Mawrth 2011 a rhoddodd gyfraniad cyfoes tuag at y sylfaen dystiolaeth er mwyn datblygu eiriolaeth yng Nghymru yn y dyfodol.

Rhoddodd yr elusen gyngor arbenigol i fwrdd prosiect **Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed** Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y flwyddyn.

## Ymgysylltu

Mae Age Cymru yn gweithio ar y sail y bydd pobl hŷn yn ganolog ym mhopeth rydym yn ei wneud. Drwy roi'r egwyddor hon ar waith, rydym yn cydnabod ac yn ceisio mynd i'r afael â phryder llawer o bobl hŷn nad oes ganddynt lais neu nad yw eu cyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi. Mae'r ddelwedd negyddol o fynd yn hŷn ac o bobl hŷn yn y cyfryngau yn gwaethgu'r broblem hon. Fel elusen, mae ein dull llywodraethu wedi'i sefydlu i wneud yn siwr bod pobl hŷn yn cael eu cynrychioli'n uniongyrchol ar ein Bwrdd o Ymddiriedolwyr a bod ein gwaith dylanwadu yn seiliedig ar faterion a phryderon sydd o bwys i bobl hŷn.

Yn ystod 2010, sefydlwyd **Rhwydwaith o Gadeiryddion Fforymau** ar gyfer Cymru gyfan gennym. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau rhanbarthol sy'n dod â fforymau pobl hŷn ynghyd i drafod materion cyffredin ac i gynorthwyo ei gilydd. Mae'r trefniadau rhanbarthol hyn yn elfennau allweddol o **Fforwm Ymgynghorol Age Cymru** a lansiodd ym mis Mai 2011. Bydd y fforwm ymgynghorol yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn ac yn ethol cynrychiolydd ar gyfer Bwrdd Age Cymru. Yn ogystal â chynrychiolaeth ranbarthol, bydd y fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau cenedlaethol o bobl hŷn ac o rwydweithiau amrywiaeth Age Cymru.

Drwy gydol y flwyddyn, darparodd Age Cymru gymorth ysgrifenyddol i'r 3 sefydliad cenedlaethol o bobl hŷn ledled Cymru:

### **Confensiwn Cenedlaethol y Pensiynwyr Fforwm Pensiynwyr Cymru a Chymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Hŷn Cymru.**

Rhoddodd Age Cymru gymorth ysgrifenyddol a datblygol hefyd i'r sefydliadau cenedlaethol o bobl hŷn a sefydlodd **Senedd Pobl Hŷn Cymru**. Mae pob sefydliad pobl hŷn yng Nghymru yn gallu cymryd rhan yn Senedd Cymru fydd yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn ac yn rhoi llais cyfunol cryf i bobl hŷn am faterion pwysig. Lansiodd y Senedd ar 1 Hydref 2010 gan Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC.

Ym mis **Chwefror 2011**, lansiodd **Ein Llais** gennym sef ein cylchlythyr newydd i bobl hŷn. Mae'n cynnwys cyfraniadau gan fforymau, unigolion hŷn ac Age Cymru yn ogystal â gwybodaeth y gall grwpiau ac unigolion ei defnyddio i'w cynorthwyo i gymryd rhan yn lleol neu'n genedlaethol.

Yn ystod 2010, parhawyd ein hymgyrch i annog y cyhoedd i gydio yn y cysyniad o gymdogaethau am oes a galluogi pobl i newid eu cymunedau er gwell. Cwblhawyd bron i 1000 'Cyfrifiannell Gymunedol' (teclyn a ddatblygwyd i asesu eu cymdogaethau) a lansiwyd adroddiad i amlinellu'r canlyniadau yng **Nghrŵp Amlbleidiol y Cynulliad am Bobl Hŷn** ym mis **Tachwedd 2010**. Roedd hwn yn amlinellu'r ymateb a gafwyd ledled Cymru gan amlygu ardaloedd sy'n wynebu anfanteision difrifol ac yn annog cymorth ar gyfer yr elfennau sy'n cyfrannu at greu cymunedau llwyddiannus am oes.

Mae ein Tîm Ymgysylltu a'n Tîm Materion Cyhoeddus wedi bod yn cydweithio'n agos i wneud yn siwr bod pobl hŷn wedi cael y cyfle i gyfrannu'n uniongyrchol at ein gwaith datblygu polisiau ac ymgyrchu. Mae grwpiau ffocws wedi'u cynnal ledled Cymru i ystyried blaenoriaethau ar gyfer Etholiadau'r Cynulliad yn 2011, materion sy'n ymwneud â thalu am ofal, dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a blaenoriaethau ar gyfer y Maniffesto Cam-drin Pobl Hŷn.

Mae nifer o bartneriaid allweddol sydd eisiau ymgynghori â phobl hŷn wedi defnyddio arbenigedd ein Tîm Ymgysylltu gan gynnwys cyrff greu syniadau fel Ymddiriedolaeth Runnymede a sefydliadau gwladol fel Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### **Ein Gwaith yn y Dyfodol**

Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn parhau i gynorthwyo sefydliadau cenedlaethol o bobl hŷn. Yn ogystal â'r rhai a gynorthwywyd yn ystod 2010/11, byddwn yn parhau i weithio gyda Chynghrair Pobl Hŷn Cymru i roi cymorth ysgrifenyddol a datblygol.

Byddwn yn ceisio cysylltu â rhagor o bobl hŷn drwy ein gwaith ymgysylltu i wneud yn siwr bod amrywiaeth eang o safbwyntiau'n cael eu clywed i gyfeirio gwaith yr elusen yn ogystal ag unigolion dylanwadol a llunwyr safbwyntiau yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i ddatblygu a defnyddio Mynd yn Hŷn yng Nghymru i geisio codi ymwybyddiaeth o oed a newid agweddau at fynd yn hŷn. Byddwn yn ceisio datblygu ein gwaith i ddiogelu pobl hŷn ac yn parhau i herio oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed.

### **2. Gwneud yn siwr bod pobl hŷn yn byw'n iach am gyn hired â phosibl yn ogystal â hyrwyddo iechyd, lles ac annibyniaeth pobl hŷn**

Mae manteision iechyd ac economaidd ymyrraeth gynnar a hyrwyddo i iechyd i'w gweld yn glir. Mae Age Cymru wedi datblygu a hyrwyddo dulliau cyfunol o safbwynt Heneiddio'n iach i geisio atal salwch yn nes ymlaen mewn bywyd os yw'n bosibl.

Drwy ein **Rhaglen Heneiddio'n Dda**, rydym wedi rhoi gwybodaeth a chymorth i aelodau Rhwydwaith Heneiddio'n Dda. Dyma grwpiau ledled Cymru sy'n defnyddio mentoriaid iechyd cymheiriaid i hyrwyddo negeseuon am heneiddio'n iach ymysg pobl hŷn. Rhoddwyd hyfforddiant a chyflwyniadau yn ystod y flwyddyn am sut i ymgysylltu â phobl hŷn er mwyn eu cynorthwyo a dylanwadu arnynt i wneud dewisiadau cadarnhaol am sut i fyw a'u hiechyd.

Cafodd rhaglen Heneiddio'n Dda ei henwebu ar gyfer Gwobrau Cydnabod Mentora a Chyfeillio Teithiau Cynorthwyo Bywyd yn 2010. Cafodd y rhaglen ei chydabod am ddangos canlyniadau rhagorol drwy fentora a chyfeillio pobl sy'n agored i niwed ac wedi'u heithrio'n gymdeithasol.

Mae ein **Rhaglen Cerdded Nordig** yn parhau i fynd o nerth i nerth. Yn ystod 2010, cynhaliwyd sesiynau rhagflas am Gerdded Nordig ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yng Nghanolfan Fynydd Libanus a chynhaliwyd sesiynau ychwanegol yng Nghaeau Llandaf yng Nghaerdydd, ym Merthyr Tudful ac yn y Ganolfan Gwlypdiroedd Cenedlaethol yn Llanelli. Cyflwynwyd rhaglenni cymorth gennym i arweinwyr Cerdded Nordig gwirfoddol yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ac fe wnaethom barhau i recriwtio a hyfforddi arweinwyr newydd.

Yn 2010, enillodd ein Swyddog Gweithgareddau Corfforaethol statws Hyfforddwr Cerdded Nordig Rhyngwladol. Roedd hyn yn dipyn o gamp gan mai dim ond dwy o'r gwobrau hyn a gyflwynwyd yng Nghymru. Ar 10 Hydref, cynhaliwyd digwyddiadau gennym ym Mae Caerdydd ac yng Ngerddi Botaneg Genedlaethol Cymru i ddathlu'r Diwrnod Cerdded Nordig Cenedlaethol, gan godi rhagor o ymwybyddiaeth o fanteision **Cerdded Nordig**.

Mae ymgyrch **Gofal Piau Hi'r Gaeaf Hwn** yn ceisio rhoi cyngor a chymorth i bobl hŷn, i'w helpu i aros yn iach ac yn heini dros fisoedd y gaeaf. Mae'n cynnwys dosbarthu a rheoli adnoddau trwy'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus, paratoi cylchlythyrau cyson a diweddarau a rheoli'r Wefan Gofal Piau Hi'r Gaeaf Hwn. Roedd gennym grantiau ar gyfer grwpiau Age Concern lleol, a oedd yn creu amryw o brosiectau arloesol i gynnwys pobl hŷn ymhellach a'u cynorthwyo i weld pa fudd-daliadau sydd ar gael iddynt, i gael brechiadau ffliw a chael cyngor am ynni. Buom hefyd yn cydweithio â Galw Iechyd Cymru i roi **25,000 thermometr** i bobl hŷn yn ogystal â chyngor yn ymwneud â'r gaeaf.

Buom yn hyrwyddo **Wythnos Iechyd Rhywiol** ledled Cymru gan mai'r twf mewn iechyd rhywiol a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ymhlith pobl dros 50 oed oedd y brif thema. Cyflwynwyd 100 o becynnau Wythnos Iechyd Rhywiol gennym ymysg partneriaid lleol ym maes iechyd, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol ledled Cymru yn ogystal â chydlynu datganiad cenedlaethol i'r wasg i hyrwyddo'r wythnos mewn cysylltiad â'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol a'r Gymdeithas Cynllunio Teulu.

Cafodd rhaglen **Fy Mywyd mewn Cartref Cymru** ei chydabod am ei gwaith drwy ennill '**Gwobr Arloesedd mewn Gofal**' yng **Ngwobrau Gofal mawreddog Cymru** ym mis Hydref 2010. Mae'r wobwr hon yn gydnabyddiaeth gan weithwyr gofal proffesiynol o bwysigrwydd gwaith arloesol rhaglen Fy Mywyd mewn Cartref Cymru yn ogystal â gwaith caled ac ymroddiad y tîm sy'n gyfrifol am y rhaglen.

Ariennir y rhaglen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, trwy Her Iechyd Cymru, i weithio gyda thrigolion cartrefi gofal, eu perthnasau a staff, i ganfod a rhannu syniadau sy'n gwneud bywyd yn well i bobl sy'n byw yn, sy'n ymweld â neu sy'n gweithio mewn cartrefi gofal ar hyd a lled Cymru. Gall y rhain fod yn syniadau syml iawn neu'n newyddbethau cymhleth, ond yr un yw'r nod – gwella bywydau beunyddiol pobl mewn cartrefi gofal. Mae'r rhaglen yn darparu bwletinâu cylchlythyr cyson ar gyfer pob cartref gofal preswyl i bobl hŷn yng Nghymru ac mae'n darparu gweithdai ar gyfer staff mewn cartrefi sy'n cyfranogi, yn seiliedig ar themâu'r rhaglen. Yn ogystal, mae **cynhadledd** i 'Gydnabod,

rhannu a datblygu arfer da mewn cartrefi gofal i bobl hŷn yng Nghymru' a **seminar cenedlaethol** wedi'u cynnal i alluogi staff a rheolwyr cartrefi gofal i ddysgu am y rhaglen, sut y gallant gymryd rhan ynddi ac i sôn am arferion perthnasol sy'n cael eu datblygu.

Mae'r rhaglen wedi datblygu grantiau bychain hefyd i gynorthwyo gwirfoddoli lleol mewn cartrefi gofal ac mae cyrsiau hyfforddiant wedi'u cyflwyno i staff gofal am ddarparu gweithgareddau ac am hawliau dynol.

## **Gwanwyn**

Un o uchafbwyntiau Gwanwyn 2010 oedd lansio '**Aged to Perfection**', sef detholiad o waith ysgrifenedig newydd gan bobl hŷn, yng **Ngŵyl y Gelli**. Mae 'Aged to Perfection' yn cael ei ddosbarthu fel cyhoeddiad 'i'w rannu' sydd hefyd â thudalen ar Twitter. Rydym yn cael adborth rheolaidd bod y gwaith wedi mynd cyn belled ag UDA, Mecsico, Twrci, India a Seland Newydd yn ogystal â ledled y DU.

Roedd Gwanwyn 2010 yn cynnwys dros 300 o sesiynau, dan arweiniad 92 o grwpiau cymunedol. Denodd oddeutu 8,000 o bobl, sydd 14% yn uwch na 2009.

Mae'r staff wedi bod yn gweithio gydag uned Asesu Demensia yng Ngwesty Brenhinol Morgannwg i ddatblygu **Prosiect Llygad y Meddwl** sy'n cyflwyno celf i'r uned.

## **Ein Gwaith yn y Dyfodol**

Byddwn yn parhau ein rhaglen waith gryf i gynorthwyo **iechyd, lles ac annibyniaeth** pobl hŷn yng Nghymru. Byddwn yn ceisio recriwtio rhagor o aelodau ar gyfer y rhwydwaith Heneiddio'n Dda i roi cymorth ychwanegol i ragor o fentoriaid iechyd cymheiriaid sy'n gweithio yn ein cymunedau. Byddwn hefyd yn ceisio ehangu ein Rhaglen Cerdded Nordig drwy recriwtio a hyfforddi arweinwyr gwirfoddol mewn ardaloedd newydd.

Byddwn yn adolygu ac yn diweddarau ymgyrch Gofal Piau Hi'r Gaeaf Hwn i wneud yn siwr ein bod yn cyrraedd y bobl hŷn sydd fwyaf mewn angen gwybodaeth a chymorth am iechyd yn ystod y gaeaf.

Bydd Fy Mywyd Mewn Cartref Cymru yn gweithio gyda charfanau ychwanegol o gartrefi gofal i gofnodi a rhannu arfer da yng Nghymru a gwneud yn siwr bod arferion a ddatblygir yn cael ei rhannu a'u rhoi ar waith er lles preswylwyr cartrefi gofal.

Byddwn hefyd yn parhau i dyfu a datblygu Gwanwyn, sy'n dathlu creadigrwydd pobl hŷn yn ogystal ag annog a chynorthwyo cyfleoedd celf lleol parhaus i bobl hŷn.

## **3. Lleihau esgeulustod, anfantais, cyflawni mwy o gynhwysiad cymdeithasol a herio achosion tlodi**

### **Gwybodaeth a chyngor**

Wrth i ni geisio atal a lleihau tlodi ac anfantais ymysg pobl hŷn yng Nghymru, mae rhoi gwybodaeth amserol a chywir yn hollbwysig. Rydym wedi datblygu gwasanaeth blaenllaw sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor dros y ffôn i bobl hŷn ledled Cymru.

Mae ein gwasanaeth yn gysylltiedig â'n partneriaid lleol i roi gwasanaethau wyneb yn wyneb. Rydym wedi creu tîm o gynghorwyr gwybodaeth sy'n ymateb i ymholiadau gan bobl hŷn, eu hyrwyddwyr a phartneriaid Age Cymru, gan alluogi pawb i wneud penderfyniadau deallus.

Rydym wedi cynyddu nifer yr adnoddau gwybodaeth sy'n benodol i Gymru, gan gynnwys *Pobl hŷn yng Nghymru: ffeithiau ac ystadegau allweddol ac Arweiniad byr am fudd-daliadau i bobl hŷn yng Nghymru*, yn ogystal ag amrywiaeth o ddalenni ffeithiau. Mae'r adnoddau hyn ar gael yn uniongyrchol i bobl hŷn ar ein gwefan neu ar bapur ac mae ein partneriaid hefyd yn eu defnyddio i roi gwybodaeth yn lleol.

Yn ystod 2010/11, sef blwyddyn gyntaf ein Llinell Gyngor, cawsom 1,824 o ymholiadau, llwythwyd 5,500 o adnoddau gwybodaeth oddi ar ein gwefan a dosbarthwyd nifer tebyg o ddeunydd gwybodaeth wedi'u hargraffu.

## Dylanwadu

Mae ein gwaith dylanwadu yn trawstorri drwy'r holl flaenoriaethau a nodwyd ond mae cryn bwyslais ar dlodi ac eithrio cymdeithasol.

I lansio ein brand newydd ym mis Ebrill 2010, cynhaliwyd digwyddiad '**Holi ac Ateb**' gennym ar gyfer pobl hŷn gyda chynrychiolwyr o'r pedair prif blaid. Fe'i cynhaliwyd ychydig cyn yr Etholiad Cyffredinol i roi'r cyfle i bobl hŷn holi'r gwleidyddion yn uniongyrchol.

Yn ystod misoedd yr haf, cyflwynwyd tystiolaeth a pholisïau gennym i bob un o'r 4 plaid wleidyddol yng Nghymru i ddylanwadu ar eu manifestos ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2011.

Ym mis Tachwedd 2010, lansiwyd yr adroddiad **Cyfleoedd a Heriau** oedd yn amlinellu safbwyntiau polisi'r elusen mewn derbyniad a gyflwynwyd gan Helen Mary Jones AC yn y Senedd. Roedd amrywiaeth o bartneriaid yn bresennol gan gynnwys Aelodau Cynulliad, rhan-ddeiliaid a phobl hŷn ac roedd yn gyfle defnyddiol i rwydweithio a dylanwadu.

Gwnaed cryn ymdrech i gynllunio a sicrhau presenoldeb y sefydliad yng **Nghynadleddau Gwanwyn Pleidiau Gwleidyddol Cymru** cyn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2011. Gan adeiladu ar lwyddiant 2010, cynhaliwyd cymysgedd o **gyfarfodydd ymylol a sesiynau hysbysu dros frecwast** ar gyfer gwleidyddion, gan gyflwyno'r prif themâu ym manifesto Age Cymru. Roedd y sesiynau hysbysu yn benodol yn rhoi cyfle uniongyrchol i wneud yn siwr bod ACau ac ASau yn ymwybodol o'r blaenoriaethau allweddol i bobl hŷn. Roedd gennym hefyd stondin arddangos yn y cynadleddau er mwyn i Age Cymru fod mor amlwg â phosibl ac i gyflwyno ein negeseuon mor eang â phosibl. Anfonwyd ein manifesto at bob ymgeisydd yn ogystal ag amrywiaeth o fudd-ddeiliaid eraill.

Un o brif lwyddiannau ein gweithgarwch cyn yr etholiad oedd creu fideo o bobl hŷn i roi eu safbwynt nhw am ein prif alwadau. Fe'i defnyddiwyd yng nghynadleddau'r pleidiau, y digwyddiad holi ac ateb a hwn oedd canolbwynt ein tudalennau am yr etholiad ar ein gwefan.

Paratôdd y tîm **hysbysiadau** rheolaidd yn ymateb i drafodaethau a chwestiynau a ofynnwyd yn y Cynulliad. Roedd hyn yn gwneud yn siwr bod Aelodau'r Cynulliad yn deall safbwyntiau pobl hŷn a'r elusen am y pynciau oedd yn cael eu trafod. Mae llwyddiant y sesiynau hyn wedi arwain at nifer cynyddol o geisiadau am wybodaeth a safbwyntiau gan y tîm. Rydym hefyd wedi gallu olrhain eu llwyddiant o ran sut maent yn cael eu defnyddio yn y Senedd. Er enghraifft, ar un achlysur ym mis Tachwedd 2010, cyflwynwyd gwybodaeth gennym ar gyfer dau gwestiwn gwahanol a ddyfynnwyd gan ddau AC. Yn nes ymlaen y prynhawn hwnnw, cynhaliwyd trafodaeth am adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn a dyfynnwyd gwaith Age Cymru gan dri AC arall. Cafodd yr hysbysiadau hyn eu cyflwyno'n gyffredinol ar ein gwefan a'u hysbysebu ar *Twitter*.

Darparodd y tîm polisïau a materion cyhoeddus gymorth **ysgrifenyddol i Grŵp Amlbleidiol y Cynulliad am Bobl Hŷn** gan roi rhagor o gyfleoedd i ddylanwadu.

Cwblhawyd y gwaith am adolygiadau polisi cyntaf Age Cymru yn ystod y flwyddyn. 'Iechyd, lles a gofal cymdeithasol' a 'Chydraddoldeb a Hawliau Dynol' oedd y rhain ac maent yn rhan o'n fframwaith cadarn o lywodraethu polisïau.

Paratowyd tri deg **ymateb ymgynghorol** rhwng mis Ebrill 2010 a mis Mawrth 2011 i ofalu bod oed yn cael ei ystyried mewn amrywiaeth eang o feysydd polisi.

### **Ein Gwaith yn y Dyfodol**

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwasanaeth gwybodaeth a chynghori o safon uchel drwy wneud yn siwr bod amrywiaeth eang o wybodaeth ar gael yn ddwyieithog i bobl hŷn yng Nghymru dros y ffôn ac yn ein cymunedau lleol.

Byddwn hefyd yn parhau i geisio newid bywydau pobl hŷn er gwell drwy ein gwaith dylanwadu, gan fanteisio ar gyfleoedd i ddylanwadu a gyflwynir gan Gynulliad Cenedlaethol newydd Cymru a'r pwerau deddfu newydd.

## **4. Gweithio mewn partneriaeth i ddylanwadu'n eang a defnyddio adnoddau'n llawn**

### **Partneriaid lleol**

Bu llawer iawn o gydweithio â changhennau Age Concern lleol ac Age UK yn ystod y flwyddyn i ddatblygu **cytundeb ar frand partneriaeth** i Gymru.

Mae'r gwaith manwl a chymhleth hwn wedi'i gynnal dros sawl cam, o'r ymgynghoriad cychwynnol i ddatblygu cytundeb cyfreithiol. Mae chwe sefydliad Age Concern lleol wedi cytuno i fod yn bartneriaid gyda ni erbyn hyn a byddant yn cael eu hail-frandio yn 2011.

Mae tîm y **Partneriaethau a Gwasanaethau** wedi rhoi cymorth ymarferol a hyfforddiant o bwys i sefydliadau Age Concern lleol drwy gydol y flwyddyn mewn meysydd sy'n cynnwys cynllunio busnesau, tendrau, ysgrifennu ceisiadau a rhoi cymorth i dderbyn amrywiaeth o grantiau Age UK.

Rhoddwyd cymorth ysgrifenyddol i **Bartneriaeth Age Concern Cymru** yn ystod ail hanner 2010. Drwy'r dull ffurfiol hwn y mae sefydliadau Age Concern wedi bod yn cydweithio ledled Cymru er lles pobl hŷn.

### **Cynghrair Henoed Cymru**

Mae Age Cymru wedi parhau i roi cymorth ysgrifenyddol i Gynghrair Henoed Cymru. Mae'r Gynghrair yn dod â sefydliadau cenedlaethol y trydydd sector sy'n ymwneud â materion pobl hŷn ynghyd ac yn ceisio hwyluso cydweithio ar draws y sector er lles pobl hŷn.

Yn ystod 2010, cynorthwyodd Age Concern y Gynghrair i newid pwyslais a chanolbwyntio ar flaenoriaethau strategol ar sail dau gyfarfod eu prif weithredwyr. Mae ymgysylltiad cynyddol aelodau'r Gynghrair yn dangos pa mor llwyddiannus fu'r dull newydd.

Cynorthwyodd Age Concern y Gynghrair i gyhoeddi manifesto ym mis Chwefror 2011 ac i drefnu cynhadledd llwyddiannus ar gyfer y trydydd sector ym mis Mawrth 2011.

### **Partneriaethau eraill**

Parhaodd Age Cymru i fod yn aelod amlwg o **Coalition on Charging Cymru**. Dyma grŵp lobïo sydd wedi bod yn ymgyrchu am ofal personol am ddim i bobl hŷn ac anabl yng Nghymru ers 2011. O ganlyniad i lobïo parhaus, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddeddfwriaeth i'w galluogi i reoleiddio faint mae awdurdodau lleol yn eu codi yn fwy cyson. Dilynwyd hyn gan **Fesur Gofal Cartref** fydd, o fis Ebrill 2011, yn cyflwyno uchafswm wythnosol newydd. Mae hyn yn gam pwysig ymlaen tuag at godi prisiau tecach am ofal cymdeithasol yng Nghymru. Cynrychiolodd Age Cymru'r Glymblaid ar grŵp cynghori'r Cynulliad sy'n gyfrifol am roi'r mesur ar waith.

Rydym yn dal i fod yn aelodau o **Grŵp Cynghori ar Dlodi Tanwydd** Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac roeddem yn aelodau sefydlu o grŵp llywio'r **Siarter Tlodi Tanwydd**, ochr yn ochr â NEA Cymru, Cyswllt Defnyddwyr Cymru ac elusennau eraill. Lansiodd y Siarter ym mis Hydref 2009, i alw am weithredu ar frys i roi'r agenda tlodi tanwydd nôl ar y trywydd cywir ac ail-bwysleisio codi pobl allan o dlodi tanwydd. Roedd yn targedu Strategaeth Tlodi Tanwydd nesaf Llywodraeth Cynulliad Cymru'n benodol. Fe wnaethom gefnogi gweithgareddau'n ymwneud â'r Siarter, gan gynnwys digwyddiadau lobïo gydag Aelodau Cynulliad, y mae'r mwyafrif ohonynt wedi arwyddo'r Siarter. Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Jane Davidson AC, wedi disgrifio'r cynghrair fel un o'r grwpiau lobïo mwyaf effeithiol ers datganoli. Rydym yn aelodau blaenllaw o **Gynghrair Gofalwyr Cymru** ac rydym wedi dadlau achos gofalwyr hŷn mewn sawl cyfarfod gweinidogaethol yn ystod y cyfnod.

Drwy weithio mewn partneriaeth gyda Dr Roger Blunden, rydym wedi llwyddo i gael **Grant Urddas Llywodraeth Cynulliad Cymru** i argraffu a dosbarthu **Fy Nyfodol**. Dyma gyhoeddiad sy'n galluogi unigolion i gofnodi beth fyddai orau ganddynt ar gyfer eu dyfodol ac mae'n ceisio gwella urddas mewn gofal drwy gynorthwyo pobl i gynnal eu hunaniaeth wrth iddynt ddibynnu ar eraill i ofalu amdanynt. Gwella ansawdd bywyd yr unigolyn yw'r nod drwy eu cynorthwyo i gadw eu hurddas, sef cysyniad ar wahân i wella ansawdd gofal.

Yn ystod tymor cynadleddau'r pleidiau, cymerodd Age Cymru ran gyda 10 sefydliad trydydd sector neu iechyd cenedlaethol yng Nghymru i gyflwyno sesiwn ar y cyd i wleidyddion am 'Atebion iechyd ar adegau anodd'. Sicrhaodd hyn fod anghenion pobl hŷn yn cael sylw yn ystod y cyfle allweddol hwn i ddylanwadu.

## Ein Gwaith yn y Dyfodol

Bydd cydweithio â'n partneriaid Age Cymru lleol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i bob tîm ar draws yr elusen wrth i ni geisio gwella adnoddau ein partneriaid lleol i gynorthwyo pobl hŷn mewn cymunedau lleol ledled Cymru. Byddwn yn cydweithio â phartneriaid lleol, nid yn unig i wella adnoddau mewn gwasanaethau cyfredol, ond hefyd i ddatblygu amrywiaeth ehangach o wasanaethau a chymorth lle bo'n briodol.

Byddwn yn parhau i fod yn aelodau blaenllaw o'r rhwydweithiau a'r cynghreiriau sy'n rhannu ein huchelgais i wella bywydau pobl hŷn er mwyn i ni allu siarad a gweithredu gyda'n gilydd, cryfhau ein sefyllfaoedd cyfunol a rhoi blaenoriaeth i faterion pobl hŷn.

## 5. Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd a chyflawni rhagoriaeth sefydliadol

Cwblhawyd ymarfer llwyddiannus yn ystod y flwyddyn i **gysoni** amodau a thelerau staff. Cynorthwywyd y gwaith hwn gan ddatblygiad ac adolygiad parhaus o bolisiau a gweithdrefnau priodol gan gynnwys adolygiad i **iechyd a diogelwch** sefydliadol a datblygu **Cynllun Iaith Gymraeg**. Cynhaliwyd gwaith gyda staff ac ymddiriedolwyr i ystyried **gwerthoedd a ffyrdd o ymddwyn mewn sefydliadau**.

Mae Age Cymru wedi cofrestru i gyflawni lefel efydd y **Wobr Iechyd i Weithleoedd Bach**. Mae'r wobwr yn farc ansawdd cenedlaethol o iechyd a diogelwch ar gyfer sefydliadau sy'n cyflogi llai na hanner cant o bobl. Mae'n broses ddatblygol sy'n seiliedig ar arferion da a gwelliant a gellir ei defnyddio i greu gweithgareddau sy'n hyrwyddo iechyd a lles gweithwyr.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar ein materion yng Nghymru, gwnaethom barhau i ddatblygu ein perthynas ar lefel y DU ac ar lefel genedlaethol gyda'r cydweithwyr yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. I ategu ymrwymiad Age Cymru at gludiant cynaliadwy, llwyddodd yr elusen i gael grant gan gynllun **Creu Caerdydd Cynaliadwy**. Bydd y grant yn galluogi'r sefydliad i ehangu ei ymrwymiad at staff sy'n beicio drwy gynnig nifer o gyfleusterau allweddol yn y gweithle i feicwyr cyfredol yn ogystal ag annog beicwyr ychwanegol. Cyflwynodd Age Cymru gynllun Beicio i'r Gwaith hefyd sy'n galluogi staff i brynu beiciau drwy eu cyflogau.

Yn ystod 2010, buom yn datblygu **cynllun strategol tair blynedd** 2011-2014, yn ogystal â chynnal arolwg ysgrifenedig ac wyth digwyddiad ymgynghori ledled Cymru gyda phobl hŷn ac ymgynghori â staff ac ymddiriedolwyr fel ei gilydd.

Cynhaliodd y tîm cyfathrebu ac ymgynghori raglen waith estynedig i lansio'r **brand newydd** ym mis Ebrill 2010. Dilynwyd y lansiad hwn gyda lansiad **gwefan newydd Age Cymru** ym mis Mai oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o wybodaeth ac yn annog pobl i gefnogi gwaith yr elusen. Rydym hefyd wedi cynyddu presenoldeb yr elusen ar rwydweithiau cymdeithasol **Facebook** a **Twitter** i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith a chael cymorth gan amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.

Mae cyfres o **fewnrwydi** wedi'u datblygu ar gyfer staff, ymddiriedolwyr a'n partneriaid lleol. Yn ogystal â digwyddiadau a chynadleddau a gynhaliwyd gan Age Cymru, rydym hefyd wedi manteisio ar gyfleoedd gan sefydliadau eraill i wneud yn siwr bod ein gwaith a'n negeseuon yn cael eu rhannu'n eang. Er enghraifft, yng Nghynhadledd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chynhadledd Confederasiwn y GIG.

Drwy gydol y cyfnod, bu'r **cyfryngau** mewn cysylltiad i gael sylw gennym am amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn gan gadarnhau statws y sefydliad fel arbenigwr yn y maes. Cyflwynwyd datganiadau gennym i'r wasg yn rheolaidd yn ogystal â pharhau i roi colofn wythnosol sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor am amrywiaeth o faterion.

Mae ein gwaith codi arian yn hanfodol er mwyn cynnaladwyedd yr elusen. Bŷm yn gweithio'n galed i ddatblygu a manteisio'n llawn ar gyfleoedd i godi arian drwy, er enghraifft, gynlluniau fel **Big Knit** a'n galluogodd i weithio gyda **gwirfoddolwyr** a **noddwyr corfforaethol**. Mae'r elusen wedi meithrin sawl perthynas gorfforaethol yn ystod y cyfnod gan gynnwys gyda Nwy Prydain, Western Power Distribution a Wales and West Utilities.

### Ein Gwaith yn y Dyfodol

Byddwn yn parhau i feithrin diwylliant sy'n hybu creadigrwydd, hyblygrwydd a staff o safon uchel i wneud yn siwr bod staff yn meddu ar y sgiliau a'r adnoddau i berfformio'n effeithiol.

Byddwn yn cynnal system gadarn o reoli risgiau a byddwn yn cyflawni ein nodau gyda chymorth dulliau llywodraethu effeithiol.

Byddwn yn parhau i godi proffil Age Cymru i gynnal ein statws o fod yn yr elusen arweiniol yng Nghymru ynghylch oed a heneiddio. Byddwn yn rhoi cynllun ar waith i gynyddu ein hincwm elusennol ar gyfer ein defnydd ein hunain ac i gynorthwyo ein partneriaid lleol.

### Diolchiadau

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r canlynol am eu cymorth ariannol a chyfraniadau o fath arall yn ystod y flwyddyn:

Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Gronfa Loteri Fawr, Age UK, Cyngor Celfyddydau Cymru, Comic Relief, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Digital Outreach, Cyngor Sir Caerdydd, Comisiynydd Pobl Hŷn, Benthyciadau Barclays, Nwy Prydain, BUPA, Cyngor Dinas Caerdydd, Cartridge Mate, Decca Records, Asiantaeth yr Amgylchedd, Gofal Iechyd Hallmark, International Greetings, Gofal Iechyd Barchester, Parc Treftadaeth y Rhondda, Warwick Emanuel PR, Western Power Distribution, Esporta Group, Cymdeithas Osteoporosis, Cyfreithwyr Hugh James, B&Q, Berryman Lace Mawer, Cyfreithwyr Larby Williams, Cyfreithwyr Eaves, Cyfreithwyr Runett and co - a'r lluo o gwmnïau ac unigolion eraill sydd wedi rhoi'n hael a chodi arian ar ein rhan dros y flwyddyn.

## Adolygiad ariannol

Am yr eildro, mae Age Cymru yn defnyddio'r Cyfeiriad Uno gyda chaniatâd Comisiwn yr Elusennau i gyflwyno un gyfres gyfunol o gyfrifon ac adroddiad blynyddol ar gyfer Age Cymru a Chyngor Cymru ar Heneiddio. Daeth y Cytundeb Cynghrair Masnach rhwng Age UK Enterprises ac Age Concern Caerdydd a'r Fro ac Age Concern Morgannwg i ben ar 31 Mawrth 2011. Sefydlwyd Age Cymru Enterprises Limited gan Age Cymru fel is-gwmni y mae'n berchen arno'n llwyr ym mis Chwefror i roi cynnyrch a gwasanaethau i bobl hŷn yn y meysydd hyn. Mae'r cyfrifon hyd at 31 Mawrth yn cynnwys costau sefydlu cwmni newydd a ddechreuodd fasnachu ar 1 Ebrill 2011.

Y cyfrifon ar dudalennau 25 i 30 yw cyfrifon cyfunol yr elusen ac maent yn rhoi cyfrifon ar wahân ar gyfer Age Cymru, Age Concern Cymru ac Age Cymru Enterprises Limited.

Cyflwynir y datganiadau ariannol ar y ffurf sy'n ofynnol gan Ddatganiad o Arfer a Argymhellir (SORP) yr Elusen 2005. Dengys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol (SOFA) incwm gros o'r holl ffynonellau a rhaniad y gweithgareddau rhwng cronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig.

### Incwm

£2,413,083 oedd cyfanswm yr adnoddau a ddaeth i mewn ar gyfer 2010/11 (2009/10: £2,170,223), sy'n gynydd o 11%. Roedd £1,308,251 o'r incwm yn dod o grantiau, sy'n cynrychioli 54% o gyfanswm yr incwm (2009/10: £1,312,894 - 60%).

£634,078 oedd yr incwm o Age UK, sy'n 26% o gyfanswm yr incwm (2009/10: £589,510 - 27%). Derbyniodd Age Cymru £230,928 oddi wrth Age UK Enterprises Limited, sy'n 10% o gyfanswm yr incwm (2009/10: £135,193 - 6%).

Buddsoddwyd arian yn unol â Pholisi Rheoli'r Trysorlys, a arweiniodd at dderbyn incwm o £13,702 (2009/10: £8,696) yn ystod y flwyddyn.

### Gwariant

Canran cyfanswm y gwariant

	2010/11	2009/2010
	%	%
Gweithgareddau Elusennol	<b>95</b>	94
Cost codi arian	<b>3</b>	4
Llywodraethu	<b>2</b>	2
	<b>100</b>	100

£2,134,673 oedd y cyfanswm a wariwyd ar wariant elusennol (2009/10: £2,003,637). Dyma gynydd o 7%. Dangosir hyn ar y SOFA o dan y pum nod. Esbonnir y rhain yn y prif adroddiad ac fe'u dadansoddir yn nodyn 5.

Gwariwyd £71,947 ar godi arian (2009/10: £85,190).

Fel canran o gyfanswm y gwariant, 62% yw canran y gwariant ar staff yn y categorïau uchod (2009/10: 66%).

Ad-dalwyd £40,116 o'r benthychiad banc ar gyfer prynu'r swyddfeydd yn ystod y flwyddyn.

Roedd yr arian dros ben ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys addasiad ffafriol o £70,000 ar gyfer pensiynau. Roedd hyn yn dilyn prisiad yr actwari ar 31 Mawrth o Gynllun Budd-daliadau Pensiwn Age Concern sydd bellach ar gau. Ceir manylion llawn yn nodyn 20 y cyfrifon.

Daeth dau brosiect cronfa gyfyngedig i ben yn ystod y flwyddyn, sef Cam-drin/Hyrwyddo Pobl Hŷn a Fforwm Gwledig Rhoi Llais i'n Henoed. Mae £83,185 yn llai o arian yn y cronfeydd cyfyngedig ers 1 Ebrill 2010 gan olygu bod £194,353 ar ôl. Mae hyn yn cynnwys £13,153 a gedwir ar ran Pwyllgor Codi Arian Caerdydd.

Mae £1,309,683 yn y cronfeydd anghyfyngedig ar ôl darparu'r diffyg disgwylledig mewn pensiynau. Mae hyn yn cynnwys £223,871 sydd wedi'i glustnodi ar gyfer:

1) Cynnwys ac ymgysylltu â phobl hŷn yng Nghymru. 2) Meithrin ymwybyddiaeth a chymorth hyrwyddo ym maes cam-drin pobl hŷn. 3) Cynorthwyo partneriaid lleol gyda'u costau ailfrandio a datblygu.

### **Polisi cronfeydd wrth gefn**

Mae Age Cymru yn ymrwymedig i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol. Cedwir cronfeydd wrth gefn ar lefel lle mae'r elusen a'i Ymddiriedolwyr wedi eu diogelu, gellir diwallu ymrwymadau a gall y sefydliad weithredu'n ddyfeisgar mewn hinsawdd newidiol. Wrth gadw cronfeydd wrth gefn, nid yw Age Cymru yn ceisio meithrin cyfoeth ariannol neu gronni arian i atodi unrhyw wariant a drefnwyd ar hyn o bryd. Bydd y cronfeydd wrth gefn yn cael eu cadw ar gyfer cyfyngau a chyfleoedd ac i liniaru yn erbyn y ffactorau a nodwyd yn asesiad risg y sefydliad.

**Cronfeydd cyfyngedig** - Mae lefel y cronfeydd wrth gefn yn seiliedig yn unig ar y fantolen ar unrhyw adeg, oherwydd bod incwm a gwariant yn cael eu cymhwyso i weithgaredd penodol yn unig.

**Cronfeydd anghyfyngedig** - Mae'r cronfeydd anghyfyngedig yn cynnwys cronfeydd wrth gefn dynodedig, a roddir naill ochr ar gyfer cyfyngau penodol. Nid yw'r ffaith bod y cronfeydd yma'n rhai dynodedig, er dibenion penodol gan yr Ymddiriedolwyr, yn eu cyfyngu'n gyfreithiol i gymhwyso'r cronfeydd ar gyfer y dibenion hynny. Yn ôl y polisi am gronfeydd wrth gefn: 'Dylai'r elusen geisio wneud yn siwr fod lefel ddigonol o arian wrth gefn. Y cronfeydd arian hyn sydd ar gael yw cronfeydd anghyfyngedig yr elusen ar wahân i'r asedau sefydlog a'r cronfeydd dynodedig. Mae'r arian wrth gefn hwn sydd ar gael yn dibynnu ar asesiad risg yr Ymddiriedolwyr o incwm yr elusen yn y dyfodol a'r costau posibl. Ar 31 Mawrth, roedd gan yr elusen 74% o'r cronfeydd wrth gefn y mae'n ei dargedu.

### **Polisi risg**

Mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro'r prif risgiau sy'n effeithio ar yr elusen yn rheolaidd. Bydd y risgiau a ganfuwyd yn cael eu lliniaru trwy gyfrwng polisiau a gweithdrefnau effeithiol, sy'n cynnwys pob rhan o arferion gweithredol a rheolaethau ariannol manwl fydd yn cael eu hadolygu a'u profi'n rheolaidd.

### **Polisi buddsoddi**

Bydd Age Cymru yn gwneud defnydd llawn o'r cronfeydd sydd ar gael. Fodd bynnag, mae natur y cronfeydd wrth gefn yn dynodi y dylai pob cronfa o'r fath gael eu cadw at ddefnydd parod, sydd ynddo'i hun yn debygol o leihau'r llog sydd ar gael ar y fath gronfeydd. Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu'r polisi'n flynyddol gan ddilyn cyngor y Pwyllgor Archwilio, Risg a Pherfformiad.

### **Polisi cyflwyno grantiau**

Mae Age Cymru yn rhoi grantiau bach i fudiadau Age Concern, o bryd i'w gilydd, i gefnogi cynlluniau a gytunwyd gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr.

## Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ar Age Cymru, er dibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol, yn unol â'r gyfraith gymwys a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu Cymeradwy Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau'n galw ar yr Ymddiriedolwyr i baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a fydd yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol a'r grŵp, ac o'r mewnlif adnoddau a chymhwysiad adnoddau, yn cynnwys incwm a gwariant, y cwmni elusennol a'r grŵp yn y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol yma, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr i:

- ddewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna'u cymhwyso nhw'n gyson
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn SORP yr Elusen
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac sy'n ddoeth
- datgan p'un ai y dilynwyd y Safonau Cyfrifyddu DU cymwys, yn amodol ar unrhyw wyriadau yn y deunydd a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r adroddiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y cwmni elusennol yn dal i fod mewn busnes.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni elusennol a'r grŵp, i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol a'r grŵp, ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll neu unrhyw afreoleidd-dra arall.

Cyn belled ag y mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol, does dim gwybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohono, ac mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam y dylent wedi gwneud i'w gwneud nhw eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a chywirdeb y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefan y cwmni elusennol. Mae'n bosibl bod deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig, sy'n rheoli'r modd mae datganiadau ariannol yn cael eu paratoi a'u lledaenu, yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Cadeirydd

Trysorydd

Dyddiad:

8/8/11

Dyddiad:

8/8/11

## **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Age Cymru Cyfyngedig**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Age Cymru a'r grŵp ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2010, sy'n cynnwys Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Datganiad o Gyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig, y Fantolen a'r nodiadau perthynol. Paratowyd y datganiadau ariannol yma'n unol â'r polisiau cyfrifyddu a draethwyd ynddynt.

